



Mae ymweld â'r farchnad yn gallu bod yn elfen hollbwysig o ennill a chadw busnes, p'un a ydych yn ymweld â Sioe neu Arddangosfa Fasnach, yn arddangos mewn digwyddiad o'r fath neu dim ond yn ymweld â'r farchnad a darpar gwsmeriaid. Mae'r marchnadoedd a'r arddangosfeydd yn ein rhaglen wedi cael eu dewis i adlewyrchu'r datblygiadau rhyngwladol sy'n cynnig cyfleoedd go iawn i fusnesau o Gymru.

Sut galla i elwa?

Drwy gymryd rhan mewn un neu fwy o'n digwyddiadau yn y DU a thramor, byddwch chi'n rhan o ddirprwyaeth o Gymru a byddwch yn elwa ar:

- Gyfle i fanteisio ar gefnogaeth leol drwy swyddfeydd Llywodraeth Cymru ac UKTI (Digwyddiadau rhyngwladol yn unig)

- Cymorth ariannol i helpu gyda chostau teithio a llety os archebir drwy Asiant Teithio penodedig Llywodraeth Cymru (Digwyddiadau rhyngwladol yn unig)
- Cyhoeddusrwydd, gan gynnwys gwybodaeth am eich cwmni yn y llyfryn gwybodaeth ar gyfer yr arddangosfa (lle bo hynny'n briodol)
- Stondin arddangos bwrpasol ym Mhafiliwn Bwyd a Diod Cymru, gan gynnwys cludo nwyddau (Digwyddiadau rhyngwladol yn unig), paneli graffeg a chelfi ar gyfer y stondin (bydd rhai cyfyngiadau)
- Cymorth yn yr arddangosfa oddi wrth staff Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i un cynrychiolydd o bob cwmni i gymryd rhan mewn taith fasnach a dau gynrychiolydd o bob cwmni i gymryd rhan mewn arddangosfa. Rhaid ichi fod yn gymwys i gael cymorth.

"Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, rydyn ni wedi cymryd rhan mewn nifer o arddangosfeydd ac mae hynny wedi bod yn fodd inni ennill llawer iawn o fusnes. Mae'n holl werthiant allforio wedi dod drwy'r sioeau hyn a thrwy'r cymorth a gawson ni oddi wrth Lywodraeth Cymru."

Richard Newton-Jones,
Cyfarwyddwr Masnachol
Snowdonia Cheese

Busnes Cymru | Business Wales

Os ydych chi'n meddwl y gallai'r cymorth hwn fod o fudd i chi, cysylltwch â Busnes Cymru ar 03000 6 03000 neu e-bostiwch bwyd-food@cymru.gsi.gov.uk.
llyw.cymru/bwydadiodcymru
[@BwydaDiodCymru](https://twitter.com/BwydaDiodCymru)